



Vale School Governors' Association Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro and Governor Support Unit Cylchlythyr

Gair gan y Cadeirydd

Felly, o'r diwedd, rydym yn ailgydio yn rhyw fath o normalrwydd wrth i blant y Cyfnod Sylfaen ddychwelyd i'r ysgol ac wrth gyhoeddi cynllun drafft ynghylch pryd y gall plant eraill ddychwelyd i'r ysgol. Mae'n fy ngwneud yn flin iawn clywed straeon yn y cyfryngau am ysgolion yn ailagor. Chawson nhw erioed eu cau!

Ar wahân i'r nifer eithaf sylweddol o blant gweithwyr allweddol sydd wedi bod yn mynychu'r Hybiau, mae athrawon wedi bod yn gweithio'n galed iawn i ddarparu dysgu cyfunol o ansawdd uchel – gwersi byw, gwersi wedi'u recordio, darpariaeth ar-lein ar Google Classroom, a sesiynau gwirio byw. Mae ysgolion wedi bod ar agor yn ystod pob un o Gyfnodau Clo Covid-19.

Un o'r lluo o heriau sy'n wynebu ysgolion uwchradd yw'r pwnc dyrys o asesu a ffyrdd teg o ddyfarnu cymwysterau. Eleni bydd popeth yn seiliedig ar y dystiolaeth o waith parhaus y mae dysgwyr wedi bod yn ei wneud gartref ac yn yr ysgol dros y flwyddyn academaidd hon. Bydd y ffocws ar yr hyn y gellir cael ei arddangos gan athrawon i fod yn arfarniad teg o waith yn eu pwnc. Ymddengys mai dyma'r ffordd decaf o werthuso'r gwaith y mae ein dysgwyr wedi'i wneud dros eu hamser mewn addysg ac mae'n rhoi sail gadarn ar gyfer eu dyfodol mewn addysg bellach a'r farchnad swyddi. Caiff ei oruchwylio gan Cymwysterau Cymru ac ystod eang o randdeiliaid ledled Cymru.

Gwaith Cymwysterau Cymru yw sicrhau mai

cymwysterau yng Nghymru yw'r gorau y gallant fod ar gyfer pob dysgwr, a bod gan y cyhoedd hyder mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru. Ac yntau'n rheoleiddiwr annibynnol, ei rôl hefyd yw ystyried y cymwysterau y bydd eu hangen yn y dyfodol, yn enwedig o ran sut y bydd cwricwlwm newydd Llywodraeth Cymru i Gymru yn cael ei asesu o 2027.

Bydd angen dulliau asesu newydd ar gwricwlwm newydd. Ydy un arholiad tair awr ar ddiwedd cwrs dwy flynedd y ffordd orau o wneud hyn o hyd? Beth yw'r gwersi a ddysgwyd o'r asesiadau athrawon a orfodwyd gan Covid yn 2020 a 2021? Bydd Cymwysterau Cymru yn ymgynghori'n eang ar y ffordd orau ymlaen. Bydd yr ymgynghoriad cyntaf, Cymwys ar gyfer y Dyfodol, sy'n edrych ar ddyfodol TGAU yng Nghymru, yn cau ar 9 Ebrill. Bydd ymgynghoriadau yn y dyfodol yn ystyried sut caiff y cymwysterau hyn eu cynllunio a'u hasesu. Darllenwch y dogfennau a rowch eich barn.

Diolch am eich holl waith da yn cadw ein hysgolion yn fannau dysgu a lles diogel ac effeithiol yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Dr Martin Price

Cadeirydd Cymdeithas Llywodraethwyr
Ysgolion y Fro ac Is-gadeirydd y
Llywodraethwyr, Ysgol Uwchradd
Gatholig Sant Richard Gwyn

Rhifyn 48 Fro Chwefror 2021

Pwyntiau arbennig o ddiddordeb:

- Sefydlwyd AVAGO ym 1996 ac fe'i lansiwyd o'r newydd yn 2006 fel Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro (VSGA)
- Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys 15 o lywodraethwyr etholedig, ynghyd â 2 gynrychiolydd rhieni-lywodraethwyr

Sefydlwyd VSGA i:

- Hyrwyddo arfer gorau ym maes llywodraethu mewn ysgolion yn AALI Bro Morgannwg
- Hyrwyddo gwaith mewn partneriaeth ymhlith ysgolion a rhwng ysgolion a'r AALI
- Gweithio gyda budd-ddeiliaid er mwyn sicrhau adnoddau digonol ar gyfer ysgolion yn yr AALI
- Cynrychioli safbwyntiau'r Gymdeithas ynghylch materion sy'n ymwneud gyda llywodraethu ysgolion a rheolaeth ac adnoddau ysgolion i awdurdodau a sefydliadau perthnasol

Ar y cyd gyda Chyngor Bro Morgannwg

Manylion cyswllt:

John Sparks

Pennaeth Cymorth i Lywodraethwyr
Ffôn: 01446 709106 Ffacs: 01446 701820
E-bost: JSparks@valeofglamorgan.gov.uk

Janine Hoare

Cynorthwydd Clerigol
Ffôn: 01446 709107 Fax: 01446 701820
E-bost: JHoare@valeofglamorgan.gov.uk



Mae gan VSGA gyfeiriad e-bost y gallwch ei ddefnyddio er mwyn cysylltu â ni, sef VSGA@valeofglamorgan.gov.uk
Neu, gallwch gysylltu â VSGA trwy'r post:

VSGA
a'r Uned Cymorth i Lywodraethwyr
Dysgu a Sgiliau
Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton,
Y Barri CF63 4RU

Adolygiad ar Broses Addysg Uwchradd 2021 (Blwyddyn 7) ac Addysg Gynradd 2021 (Cynradd)

Oherwydd ymdrechion y Tîm Derbyn i gysylltu â rhieni i gyflwyno cais, ond hefyd i roi cyngor ar y broses ymgeisio mewn perthynas â defnyddio dewisiadau lluosog a dewis ysgol y dalgylch fel dewis, cyflwynodd 99.4% o rieni plant sy'n mynychu Blwyddyn 6 mewn ysgol Gynradd ym Mro Morgannwg gais mewn pryd am le i'w plant mewn Addysg Uwchradd yn 2021. Rydym yn obeithiol y bydd hyn yn parhau i wella cyfradd yr ymgeiswyr llwyddiannus sy'n cael cynnig lle mewn ysgol i'w plentyn/plant yn ystod rownd gyntaf y dyraniadau a gadarnheir ar y dyddiad cynnig – 1 Mawrth 2021. Roedd hyn yn debyg ar gyfer y broses derbyn i'r dosbarth derbyn, lle cysylltwyd â rhieni dro ar ôl tro i sicrhau eu bod yn gwneud cais i'w plentyn fynychu dosbarth derbyn ym mis Medi 2021. Arweiniodd hyn at 99.8% o rieni'n cyflwyno cais yn brydlon. Byddant yn cael cynnig lle mewn ysgol ar y dyddiad cynnig sef 16 Ebrill 2021. Bydd y camau uchod a gymerodd y tîm derbyn yn sicrhau y bydd y mwyafrif helaeth o rieni yn cael cynnig lle mewn ysgol i'w plentyn/plant ar y dyddiadau cynnig cenedlaethol a nodwyd uchod.

Ymddengys fod proses dderbyn ar-lein y Cyngor bellach wedi ennill ei lle, gyda 92% o rieni yn gwneud cais ar-lein yn ystod blwyddyn academiaidd 2020/21, am le Blwyddyn 7 ym mis Medi 2021 sydd yn debyg i'r 3 blynedd flaenorol a fu rhwng 90-95%

Diweddariad ar Drefniadau Derbyn Cydlynol ar gyfer 2020-21

Ar ôl ymgynghoriad i barhau â'r cynllun yn treialu trefniadau derbyn cydlynol ar gyfer grŵp dosbarth Derbyn blwyddyn 2019-20, cytunodd cyrff llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llansanwyr, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint Andras, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Wig a Marcroes gymryd rhan yn y cynllun. Yn ogystal ag Ysgolion Cymunedol Bro Morgannwg, gallwch hefyd ymgeisio am leoedd yn yr ysgolion hyn drwy ddefnyddio'r gwasanaeth ymgeisio ar-lein.

Mae'r cynllun peilot wedi bod yn llwyddiannus ac wedi galluogi rhieni i nodi dewisiadau ychwanegol gan ddatrys hefyd y broblem gyda rhieni'n cael cynnig nifer o leoedd drwy wahanol awdurdodau derbyn. Mae hyn felly'n creu proses fwy tryloyw i rieni, ysgolion a'r awdurdod lleol. Ceir adborth yn barhaus gan yr ysgolion a'r rhieni sy'n cymryd rhan o ran sut mae modd gwella'r broses ac rydym yn awyddus i wella'r cymorth sydd ar gael i bawb pan fo'n bosibl.

Hefyd ym mlwyddyn academiaidd 2020-21 bydd Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn yn cymryd rhan mewn cynllun peilot ar Bontio i Addysg Uwchradd 2021-22. Mae'r cynllun peilot wedi'i gynllunio gyda'r un egwyddorion â chynllun peilot y derbyniadau cynradd. Yn ogystal ag Ysgolion Cymunedol Bro Morgannwg gallwch nawr hefyd wneud cais am leoedd yn yr ysgolion hyn drwy ddefnyddio'r gwasanaeth ymgeisio ar-lein. Bydd hyn yn darparu gwasanaeth gwell i rieni ac yn cynnig mwy o eglurder a chyfleoedd ar gyfer cydweithio yn y dyfodol i'r ysgol a'r awdurdod lleol gan sicrhau nad yw disgyblion yn cael mwy nag un cynnig lle mewn ysgol uwchradd ar y dyddiad cynnig cenedlaethol.

Sam Mawhinney

Swyddog Derbyniadau Cynorthwyol / Logistics & Access Officer
Strategaeth, Dysgu yn y Gymuned ac Adnoddau / School Improvement & Inclusion

Canllawiau gweithredol i ysgolion a lleoliadau pan fydd cyfyngiadau ar niferoedd dysgwyr

Cliciwch ar y ddolen isod:

https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredol-i-ysgolion-lleoliadau-pan-fydd-cyfyngiadau-ar-niferoedd-dysgwyr?_ga=2.1810484.466781000.1614769913-2131067364.1612539008

GWYBODAETH AR GYFER CYRFF LLYWODRAETHU YSGOLION: CORONAFEIRWS

Sylwch fod y cyngor atodedig wedi'i ddiweddarau:

<https://llyw.cymru/gwybodaeth-ar-gyfer-cyrff-llywodraethu-ysgolion-coronafeirws>

LLYFRGELL PLANT A PHOBL IFANC

Fy enw i yw Ben James ac mae'r mis hwn yn nodi blwyddyn ers i mi gael fy mhenodi'n Llyfrgellydd Plant a Phobl Ifanc y Fro. Dwi wedi dysgu llawer hyd yn hyn. Mae heriau newydd, na allem fod wedi'u rhagweld, wedi golygu bod llyfrgelloedd wedi gorfod bod yn arbennig o ddychmygus, gan ddod o hyd i atebion creadigol wrth i'r sefyllfa Covid ddatblygu. Er gwaethaf yr anawsterau hyn, roeddem yn dal i allu cynnig digon o weithgareddau i blant drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys Her Ddarllen yr Haf sy'n boblogaidd iawn, er mewn fformat ar-lein newydd. Ochr yn ochr â hyn, cynhaliwyd gweithgareddau a digwyddiadau bob dydd yn ystod gwyliau'r haf drwy ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol, gyda Bardd Llawryfog y Plant, Cressida Cowell, yn darllen rhannau o'i chyfres boblogaidd How To Train Your Dragon bob dydd. Er nad yw plant na'u rhieni yn gallu mynd i mewn i lyfrgelloedd, gallant gasglu llyfrau o'r llyfrgell drwy ddefnyddio ein gwasanaeth Clicio a Chasglu. Gellir cadw llyfrau ar gatalog y llyfrgell ymlaen llaw neu gall rhieni ffonio'r llyfrgell i baratoi bag lwcus o lyfrau i'w benthyg. Gydag ychydig o rybudd, gallwn hefyd baratoi casgliadau o lyfrau ar gyfer dosbarthiadau ysgol, os oes angen.

Er nad ydym wedi gallu cynnal unrhyw ddigwyddiadau wyneb-yn-wyneb yn ein canghennau, gwnaethom groesawu posibiliadau Zoom, gan ddod â'r dysgu a'r hwyl i gartrefi plant. Gwnaethom gynnal sawl gweithdy rhithwir ZooLab, gyda'n cynulleidfaoedd ifanc yn gallu rhyngweithio â'r cyflwynwyr a'u straeon Calan Gaeaf a Nadolig. Ym mis Hydref, dathlwyd y Diwrnod Barddoniaeth Cenedlaethol gyda pherfformiad wedi'i baratoi'n arbennig gan gyn-Fardd Cenedlaethol Cymru, Gillian Clarke, ac ar gyfer yr Wythnos Llyfrgelloedd cynhaliwyd gweithdy darllen a thynnu lluniau gyda'r awdur lleol, Megan Mattravers. Yn olaf, cynigiodd mis Rhagfyr ragor o greadigrwydd gyda gweithgareddau Nadolig a "chalendr adfent" o amseroedd stori dyddiol, caneuon, crefftau (a hyd yn oed bibgodau) o Lyfrgell y Barri.

Mae hwn wedi bod yn gyfnod eithriadol o anodd i ni i gyd, gyda phlant yn cael eu taro'n galed gan ddiffyg presenoldeb yn yr ysgol a chael eu gwahanu oddi wrth eu ffrindiau yn ystod y cyfnodau clo. Roedd fy nghydweithwyr a minnau yn llyfrgelloedd y Fro yn falch iawn o weld yr Asiantaeth Ddarllen a Chyngor Llyfrau Cymru yn lansio cynlluniau i gefnogi plant ar adegau o straen drwy gyflwyno casgliad llyfrau bibliotherapi newydd. Mae'r casgliad Darllen yn Well/lechyd Da yno i gefnogi plant i ddeall a rheoli teimladau ac emosiynau, ac i ymdrin â phethau fel gorbryder, galar a cholled.

Wrth i ni edrych ymlaen at 2021, gyda'r rhaglen frechu'n mynd rhagddi'n dda ledled y wlad, gallwn ddechrau teimlo'n fwy optimistaidd ac edrych ymlaen (gobeithio) at ddychwelyd at ryw fath o normalrwydd yn y dyfodol agos. Tan hynny, byddwn yn parhau i ddarparu'r un gwasanaeth rhagorol i'n defnyddwyr ym mha bynnag fodd y gallwn. Ar hyn o bryd mae nifer o ysgolion lleol yn paratoi eu ceisiadau ar gyfer y gystadleuaeth Book Slam, a fydd yn cael ei barnu ym mis Mai ac sy'n digwydd yn rhithwir am y tro cyntaf. Mae gwaith paratoi eisoes ar y gweill ar gyfer Her Ddarllen yr Haf eleni, y gobeithiwn ei gwneud yn fwy ac yn well na'r llynedd.

Ben James
Llyfrgellydd Plant a Phobl Ifanc y Fro

CYFLWYNO'R TÎM DIOGELWCH A LLES IECHYD YM MRO MORGANNWG

I gyflwyno fy hun, fy enw yw Sue Williams a dechreuais weithio gyda'r Fro ar 1 Medi 2020 fel y Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Lles. Dechreuais fy ngyrfa gyda'r Llywodraeth Leol ym Mhen-y-bont ar Ogwr pan adawais y Brifysgol ond yna symudais i'r maes Tai Cymdeithasol pan ddaeth Pen-y-bont ar Ogwr yr awdurdod cyntaf yng Nghymru i drosglwyddo ei stoc dai. Ar ôl treulio 17 mlynedd yn y maes Tai roedd yn bryd cael her newydd ac rwyf wedi dychwelyd i Lywodraeth Leol yn ystod y pandemig.

Fel tîm iechyd, diogelwch a lles, rydym wrthi'n cynnal ymarfer mapio i ail-werthuso'r gwasanaeth a ddarparwn i ysgolion, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, rydyn ni ond wedi crafu'r wyneb gyda hyn. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio'n galed iawn i gefnogi ysgolion yn ystod y pandemig gan lywio'r newidiadau niferus i ganllawiau'r llywodraeth fel y gall ysgolion weithredu'r rhain yn ymarferol. Yn ogystal â hyn rydym yn diweddarau tudalen rhwydwaith staff iechyd a diogelwch yr ysgol a chydweithio â Datblygu a Dysgu Sefydliadol i weithredu a diweddarau hyfforddiant iechyd a diogelwch ar y system iDev.

Rwyf newydd gwblhau cyflwyniad i benaethiaid a oedd yn canolbwyntio ar y system rheoli iechyd a diogelwch mewn ysgolion, eu rolau a'u cyfrifoldebau yn ogystal â rhai meysydd risg uchel amserol gan gynnwys asbestos a diogelwch tân. Rwyf nawr yn gweithio ar sesiwn debyg i lywodraethwyr ac edrychaf ymlaen at gwrdd â rhai ohonoch yn y sesiwn hyfforddi ar 21 Mehefin.

Sue Williams
Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Lles

E-bost Canlyniadau Gwneud eich Marc 2020

Fy enw i yw Ashleigh Watkins a fi yw Aelod Bro Morgannwg ar Senedd Ieuenctid y DU. Mae Senedd Ieuenctid y DU yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc 11-18 oed ddefnyddio eu llais etholedig i sicrhau newid cymdeithasol drwy gynrychiolaeth ac ymgyrchu ystyrlon. Fy rôl i yw cynrychioli pobl ifanc Bro Morgannwg a chodi ymwybyddiaeth o faterion sy'n bwysig iddynt. Amgaeaf ddogfen gryno yn cyflwyno canlyniadau ymgyrch ddiweddar Gwneud Eich Marc 2020 yr helpais i ei chyflwyno'n lleol, gyda chefnogaeth Gwasanaeth Ieuenctid y Fro a Chabinet Ieuenctid y Fro.

Cafodd yr ymgyrch ei chynnal yn ystod mis Tachwedd y llynedd, wedi ei hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol, mewn ysgolion, ac ymhlith darparwyr hyfforddiant ôl-16 a chlybiau ieuenctid digidol a dros dro, gyda'r nod o helpu pobl ifanc i gymryd rhan mewn democratiaeth. O ystyried amodau heriol pandemig y Coronafeirws, gwnaeth 763 o bobl ifanc ym Mro Morgannwg fwrw pleidlais, gan olygu mai yn yr ardal hon y pleidleisiodd y ganran uchaf yng Nghymru.

Cafodd pobl ifanc gyfle i bleidleisio ar faterion datganoledig a materion y DU. Yn y Fro, y mwyaf o bleidleisiodd dros fater y DU oedd 'Cefnogi ein hiechyd meddwl'; a'r prif fater datganoledig oedd 'Digartrefedd'. Byddwn yn lansio ymgyrch newydd yn 2021 a fydd yn canolbwyntio ar un o'r materion hyn. Mae cydweithio eisoes weddechrau gyda Chabinet Ieuenctid y Fro a darperir cyfleoedd i grwpiau ieuenctid ddod i wybod beth mae'r materion hyn yn ei olygu i bobl ifanc.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am bleidlais Gwneud Eich Marc 2020, ewch i'n post VOG Blog yma:

<https://vogblog.wales/make-your-mark-2020-results/>

Rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw gwestiynau.

Edrychwn ymlaen at weithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â'r materion sy'n bwysig i bobl ifanc yn y Fro.

Ashley Watkins

Aelod o Senedd Ieuenctid y DU dros Fro Morgannwg

Anfonwyd y neges hon ar ran yr Athro Charlotte Williams OBE ac aelodau'r Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd

Annwyl Randdeiliaid,

Heddiw, rydym yn falch o gyhoeddi bod ein hadroddiad terfynol wedi'i gyhoeddi: <https://llyw.cymru/adroddiad-terfynol-gweithgor-cymunedau-cyfraniadau-chynefin-pobl-dduon-asiaidd-lleiafrifoedd-ethnig-yn-y-cwricwlwm>

Ni wnaed gwaith o'r fath erioed o'r blaen ac mae gwir angen amdano. Mae'r adolygiad yn cynrychioli trywydd arloesol yn y gwaith o ddiwygio'r cwricwlwm yng Nghymru.

Hoffem ddiolch i chi am eich cyfranogiad gwerthfawr a gofyn ichi rannu'r ddolen hon i'r adroddiad mor eang â phosibl â'ch rhwydweithiau ac ar eich sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Ni all addysg ar ei ben ei hun fynd i'r afael â'r ffactorau cymdeithasol, diwylliannol a strwythurol sy'n cynnal anghydraddoldeb hiliol. Fodd bynnag, gall addysg fynd â ni ymlaen cryn bellter ar y daith tuag at greu dinasyddion moesegol a gwybodus y dyfodol.

Gyda diolch,

**Yr Athro Charlotte Williams OBE ac aelodau'r Gweithgor Cymunedau,
Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
yn y Cwricwlwm Newydd**

Y wybodaeth ddiweddaraf am y system Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae'r Gweinidog Addysg wedi **cyhoeddi** heddiw bod y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r rheoliadau cysylltiedig wedi'u gosod gerbron Senedd Cymru.

Gallwch weld y Cod, Memorandwm Esboniadol a'r Asediad Effaith Integredig yma a'r rheoliadau cysylltiedig yma:

- Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021
- Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021
- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Galluedd rhieni a phersonau sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol) (Cymru) 2021
- Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) (Diwygio) 2021
- Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2021

Gallwch ddarganfod mwy am y rhaglen drawsnewid ADY a chanllawiau ar y system AAA gyfredol **yma** gan gynnwys ein **cwestiynau cyffredin** a'n **canllaw rhaglen trawsnewid ADY**.

Danfonwch eich ymholiadau i **SENReforms@gov.wales**

Sefydlu dull ysgol-gyfan o ymdrin ag iechyd a lles meddyliol

Nawr yn fwy nag erioed, rhaid i les emosiynol a meddyliol ein plant a'n pobl ifanc a'n gweithlu fod yn brif flaenoriaeth i ni.

Bwrriedir i'r **Fframwaith newydd ar sefydlu dull ysgol-gyfan o ymdrin â lles emosiynol a meddyliol** yw cefnogi ysgolion, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) a lleoliadau addysg i adolygu eu sefyllfa eu hunain o ran lles, a datblygu cynlluniau i fynd i'r afael â'u gwendidau ac adeiladu ar eu cryfderau.

Dyma lythyr sydd wedi'i anfon at Gyfarwyddwyr Addysg.

SUT GALLWCH EIN CEFNOGI NI!

Gallwch gefnogi'r ymgyrch drwy:

- rhannu ac ail-drydar negeseuon o'n sianeli cyfryngau cymdeithasol: Twitter; Facebook Addysg Cymru ac Facebook Mae addysg yn dechrau gartref
- Rhestr Chwarae YouTube Dull ysgol-gyfan - Rhannwch ein hanimeiddiadau gyda dysgwyr ac astudiaethau achos gyda'r gweithlu
- cynnwys gwybodaeth ar eich gwefan, mewn cylchlythyrau, negeseuon e-bost
- rhannu gyda'ch rhwydweithiau / pobl ifanc / rhanddeiliaid / rhieni/gofalwyr

TESTUN AR GYFER CYLCHLYTHYRAU

Sefydlu dull ysgol-gyfan o ymdrin ag iechyd a lles meddyliol

Mae'r dull ysgol gyfan yn ymwneud â chefnogi lles emosiynol a meddyliol da drwy wneud cydberthnasau'n gryfach:

- rhyngoch chi a'ch athrawon;
- a rhwng rhieni, teuluoedd, gofalwyr, ac unrhyw weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'r ysgol

Mae ein fframwaith statudol newydd yn cefnogi pawb i sicrhau bod iechyd meddwl a lles emosiynol cadarnhaol pob dysgwr a aelod o staff wrth wraidd pob ysgol

NEGESEUON CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Ar gyfer rhanddeiliaid

Mae meithrin cydberthnasau cryfach a chefnogi ein gilydd wrth wraidd y #WholeSchoolApproach newydd i fframwaith iechyd meddwl a lles emosiynol **<https://bit.ly/3vkgF5n>**

Ar gyfer dysgwyr

Animeiddiad newydd yn esbonio sut y gall perthynas gryfach gyda'ch ffrindiau a'ch athrawon eich helpu a'ch cefnogi **<https://bit.ly/3lfa1bW>** #DullYsgolGyfan

Cofiwch ein tagio yn @WG_Education @LLCAddysg

A defnyddiwch yr hashnod #DullYsgolGyfan

CYMORTH A CHEFNOGAETH BELLACH I BOBL IFANC

Gallwch gyfeirio pobl ifanc at ein Pecyn Pecyn Cymorth Iechyd Meddwl Pobl Ifanc os oes angen cymorth arnynt nawr ac yn y dyfodol.

Llawer o ddiolch



PROSIECT CENHADON HAWLIAU'R FRO – Rhoi Cymorth i Athrawon ar gyfer y Cynllun Cenhadon Gwych.

Mae prosiect Cenhadon Hawliau'r Fro a reolir gan Wasanaeth Ieuentid y Fro wedi parhau i gefnogi ysgolion Cenhadon Gwych i godi ymwybyddiaeth o Hawliau Plant y tymor hwn.

Y tymor hwn mae prosiect Cenhadon Hawliau'r Fro wedi cynnig hyfforddiant digidol i athrawon ysgolion cynradd i hyrwyddo Cynllun Cenhadon Gwych Comisiynydd Plant Cymru. Cynllun am ddim yr ydym yn annog holl ysgolion cynradd Bro Morgannwg i fod yn rhan ohono sy'n galluogi disgyblion i ddysgu am CCUHP a Hawliau Plant.

Yn lle ein digwyddiadau blynyddol lle rydym yn dod â disgyblion o wahanol ysgolion cynradd at ei gilydd i'w haddysgu am hawliau, mae prosiect Cenhadon Hawliau'r Fro wedi creu cyfoeth o adnoddau. Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyniad addysgu, cardiau gweithgareddau ac esboniadau fideo i alluogi disgyblion i barhau i ddysgu am eu hawliau. Ymunodd 18 o athrawon ysgolion cynradd â ni dros 3 gwahanol ddyddiad y gwanwyn hwn.

I gael mwy o wybodaeth am y cynlluniau Cenhadon am ddim gan y Comisiynydd Plant, dilynwch y ddolen hon: <https://www.complantcymru.org.uk/ein-cynlluniau/> Hoffem annog llywodraethwyr i'w hyrwyddo a chefnogi eu hysgolion i gofrestru.



Hyfforddiant Cenhadon Gwych i Athrawon a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2021

GWASNAETH IEUENCTID Y FRO



YMUNWCH Â PHROSIECT CYFRANOGIAD IEUENCTID HEDDIW

- YDYCH CHI RHWNG 16 A 25 OED?
- Â DIDDORDEB MEWN HAWLIAU PLANT?
- YN FRWD DROS EICH CYMUNED?
- EISIAU GWNEUD GWAHANIAETH?
- EWCH I VOGBLOG.CYMRU I GAEL RHAGOR O WYBODAETH

GWIRFODDOLI
DYSGU SGILIAU NEWYDD
CAEL PROFIADAU NEWYDD
CWRDD Â FFRINDIAU NEWYDD



CYNGOR IEUENCTID LLANILLTUD FAWR

Grŵp o bobl ifanc 11-18 oed sy'n byw, yn gweithio neu'n mynd i'r ysgol yn Llanilltud Fawr ac sy'n dylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd yn y dref drwy drafod materion pwysig gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Mae aelodau Cyngor Ieuenctid Llanilltud yn cynrychioli eu cyfoedion, ysgolion lleol, a sefydliadau a chlybiau ieuenctid.

E-bost: VALEYOUTHACTION@GMAIL.COM



GRŴP GWEITHREDU IEUENCTID PENARTH

Grŵp o bobl ifanc 11-18 oed sy'n byw, yn gweithio neu'n mynd i'r ysgol ym Mhenarth ac sy'n rhoi camau ar waith i wella eu tref a sicrhau bod y sawl sy'n gwneud penderfyniadau'n lleol yn clywed barn pob ifanc. Mae aelodau Grŵp Gweithredu Ieuenctid Penarth yn cynrychioli eu cyfoedion, ysgolion lleol, a sefydliadau a chlybiau ieuenctid.

E-bost: VALEYOUTHACTION@GMAIL.COM



CENHADON HAWLIAU

Mae'r prosiect Cenhadon Hawliau yn codi ymwybyddiaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc. Mae'r prosiect yn rhoi cyfle i bobl ifanc ledled Bro Morgannwg i wneud cyfraniad cadarnhaol at eu cymuned leol.

E-bost: ALEXTHOMAS@VALEOFGLAMORGAN.GOV.UK



CABINET IEUENCTID

Llais etholedig pobl ifanc sy'n byw ym Mro Morgannwg yw'r Cabinet Ieuenctid ac mae'n cyfleu barn y bobl ifanc hynny i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yng Nghyngor Bro Morgannwg.

E-bost: VALEYOUTHCABINET@GMAIL.COM

@vysvale



"MAE GENNYCH HAWL I RANNU EICH BARN
YNGHYLCH POB MATER SY'N EFFEITHIO ARNOCH
CHI AC I'CH BARN GAEL EI CHYMRYD O DDIFRIF"
(ERTHYGL 12 CCUHP)

Aelodaeth y Pwyllgor Rheoli 2020-22

Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys llywodraethwr etholedig ynghyd â'r ddau Gynrychiolydd Rhiant-Llywodraethwr (un yr un o'r sectorau cynradd ac uwchradd).

Rhif	Teitl	Blaenly thyren	Cyfenw	Ysgol
1	Mr	R	Bailey	Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Llanbedr y Fro
2	Dr	C	Brown	Llantwit Major Comprehensive
3	Mr	N	Craggs	Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Gwenfô
4	Mrs	M	Gibbs	Ysgol Gynradd Romilly
5	Mr	A	Hennessey	Ysgol Gynradd Oak Field ac Ysgol Sant Baruc
6	Mrs	S	Hodges	Ysgol Sant Baruc
7	Mrs	S	Jenkins-Welch	Ysgol Gynradd C/W St Andrews Cynhwysfawr St Cyres
8	Mrs	J	Lynch-Wilson	Ysgol Gynradd St Athan
9	Mrs	A	Males	Ysgol Gyfun Sant Cyres
10	Mrs	A	Malkin	Ysgol Gynradd Gladstone.
11	Dr	M	Price	Ysgol Uwchradd Gatholig Richard Gwyn Sant
12	Mr	D	Treharne	Ysgol Gynradd Llansannwyr yr Eglwys yng Nghymru
13	Mrs	T	Vaughan-Taylor	Ysgol Gyfun y Bont-Faen
14	Mrs	S	Williams	Ysgol Gynradd yr Holl Saint yr Eglwys yng Nghymru
15	Cllr Mr	M	Wilson	Ysgol Gynradd Fairfield ac Ysgol Gynradd Victoria
PGR = Cynrychiolwyr Rhieni Llywodraethwyr				
PGR - Prim Gwag				
PGR - Sec Gwag				

DYDDIAD AM EICH DYDDIADUR

A allech chi wneud nodyn yn eich dyddiadur ar gyfer y Diweddariad Addysg nesaf a'r Sesiwn Briffio fydd

Dydd Mercher 30 Mehefin 2021 am 5.30pm